



# Adroddiad Blynyddol

## Bwrdd Partneriaeth Anabledd Dysgu

## Fawrth 2020








# Cyflwyniad

Mae arnom eisiau cymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb am eu gwaith caled wrth gwblhau'r camau gweithredu i gwrdd â'r argymhelliad yn y strategaeth anabledd dysgu.

Yr uchafbwyntiau ar gyfer eleni yw:

- Creu'r "Tîm Delfrydol" sydd wedi rhoi llais i bobl ag Anableddau Dysgu mewn penderfyniadau rhanbarthol. Fe wnaethom ennill gwobr am hyn.
- Lansio'r Siarter Anableddau Dysgu sy'n esbonio sut y mae arnom eisiau cael ein trin
- Cyngor Sir Penfro yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i fod yn Arweinydd Hyderus Anabledd. Fe wnaethom ennill gwobr am hyn hefyd.
- Mae ein Hyrwyddwyr Anableddau Dysgu yn gwneud gwaith gwych yn hyrwyddo pobl ag Anableddau Dysgu.
- Ar draws y sir rydym wedi creu swyddi a chyfleoedd profiad gwaith gyda chymorth PPF, PAVS, Norman Industries a Workways.
- Mae Norman Industries wedi gwneud ffilm o'r hyn y maen nhw'n ei wneud i bobl

Cadeirydd a Chyd-gadeirydd ar Fwrdd y Bartneriaeth

James Tyler



Adam Billington



# Strategaeth Anabledd Dysgu




Mae Strategaeth Dysgu Sir Benfro 2017-2022 yn dweud wrth bobl ag anableddau dysgu sut y bydd Cyngor Sir Penfro a Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn darparu gwasanaethau i wneud yn siŵr eu bod yn newid ac yn gwella ansawdd bywyd pobl ag anableddau dysgu.

Mae'r strategaeth yn sicrhau bod y gwasanaethau'n seiliedig ar y pethau y mae ar bobl eu heisiau ac yn canolbwyntio ar y gymuned.

Yn y Strategaeth mae 4 maes y bydd y Cyngor yn canolbwyntio arnynt ac a elwir yn ddeilliannau.Ym mhob maes mae nifer o nodau ac argymhellion ar gyfer newid, sef y camau gweithredu.

Bwriad y strategaeth yw gwneud newidiadau dros gyfnod o 5 mlynedd. Mae llawer o gynnydd wedi ei wneud yn rhai o feysydd y strategaeth. Mewn meysydd eraill, newydd ddechrau mae'r gwaith.

Mae'r adroddiad hwn yn esbonio'r cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at wireddu'r deilliannau hyn a'r camau a gymerir yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Dengys y diagram canlynol y deilliannau a'r camau gweithredu yn y strategaeth.

# Nodau Allweddol y Strategaeth

## Deilliant Allweddol 1

Gwella gwytnwch cymunedol a galluogi cymunedau drwy roi dewis, hunan-gyfeiriad a rheolaeth dros benderfyniadau sy'n effeithio ar fywydau.

- Cysylltwyr Cymunedol
- Cyfathrebu
- Llais, Dewis ac Eiriolaeth

## Deilliant Allweddol 2

Gwella ansawdd bywyd drwy well dewis o ran tai a llety, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yr un fath ag i bobl eraill yn y gymuned

- Yr Amgylchedd gan gynnwys Tai

## Deilliant Allweddol 3

Rhoi mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad personol a phrofiad o fywyd er mwyn gwella lles ac ansawdd bywyd.

- Cymorth gofal cymdeithasol
- Gofal iechyd cyffredinol a thriniaeth
- Trosglwyddo a chymorth i deuluoedd
- Cymorth i ofalwyr

## Deilliant Allweddol 4

Rhoi pob cyfle iddynt fod yn annibynnol, ymarfer a mwynhau eu hawliau, a chwrdd â'u dyletswyddau unigol

- Cludiant
- Cymdeithasu a Hamdden
- Twf Personol gan gynnwys Addysg, Hyfforddiant, Cyflogaeth a Gwirfoddoli
- Taliadau Uniongyrchol

## Deilliant Allweddol 1

**Gwella gwytnwch cymunedol a galluogi cymunedau drwy roi dewis, hunan-gyfeiriad a rheolaeth dros benderfyniadau sy'n effeithio ar fywydau.**

Y prif lwyddiannau hyd yma yw:

- Rydym wedi cyflogi 4 Hyrwyddwr Anabledd Dysgu.
- Sefydlwyd y Tîm Delfrydol i  roi llais i bobl yn y broses o wneud penderfyniadau.
- Mae'r Siarter Anabledd Dysgu wedi cael ei lansio i'w roi i fusnesau er mwyn cefnogi'r ffordd y dylid trin pobl ag anableddau dysgu.
- Mae Cysylltwyr Cymunedol wedi bod yn gweithio gyda mwy o bobl ag Anableddau Dysgu.
- Mae'r grŵp darllen hawdd wedi datblygu amserlen bws hawdd ei darllen.
- Mae Cyngor Sir Penfro wedi prynu Gwasanaethau Eiriolaeth arbenigol.

Mae 3 maes gwaith wedi eu cwblhau

- Cysylltiadau Cymunedol
- Cyfathrebu a Gwybodaeth
- Llais, Dewis ac Eiriolaeth

Mae'r holl waith a wnaed wedi cael ei gefnogi gan yr Hyrwyddwyr Anabledd Dysgu, yr ydym wedi'u cyflogi i hybu pobl ag Anableddau Dysgu.



## James Dash, Hyrwyddwr AD – Cyfathrebu

Dechreuais weithio fel Hyrwyddwr Anabledd Dysgu ar gyfer Cyfathrebu ym mis Hydref 2018, sydd wedi bod yn werth chweil i mi. Mae wedi rhoi mwy o hyder i mi gyda'r hyn sydd ei angen ar gyfer y swydd.

Rydw i wedi cymryd rhan mewn cyfweliadau ar gyfer swyddi yn y gwasanaethau Anabledd Dysgu gyda Chyngor Sir Penfro. Gofynnais gwestiynau a rhoddais fy marn ar bwy oedd orau ar gyfer y swydd.

Rydw i wedi bod yn gysylltiedig â'r grŵp Darllen Hawdd. Maent wedi llunio amserlenni bws hawdd eu darllen ar gyfer Sir Benfro. Rydw i hefyd wedi cael fy hyfforddi ar dros 104 + o arwyddion. Mae hyn wedi fy helpu i ddatblygu yn fy swydd. Rydw i wedi cael hyfforddiant ASC lle mae pobl ag Awtistiaeth yn rhoi'r hyfforddiant ac yn adrodd eu storïau wrthym.

Ar hyn o bryd, rydw i'n cadeirio'r Tîm Delfrydol ac yn cyd-gadeirio'r LDPG. Rydw i'n cadeirio pob yn ail cyfarfod ac mae'n rhaid i reolwyr a gweithwyr proffesiynol wrando ar bobl ag anableddau dysgu. Rydw i wedi mynd â'm swydd y tu allan i Sir Benfro drwy eistedd ar y Bwrdd Rhanbarthol. Rydw i hefyd yn rhoi sgyrsiau i grwpiau am y Siarter AD.




Rydw i nawr yn gweithio gyda phobl o wahanol sefydliadau i wneud yn siŵr bod pobl ag Anableddau Dysgu'n cael yr un cyfleoedd â phawb arall.

**Rachel Bailey – Hyrwyddwr AD Cyflogaeth**

**Beth mae cael fy nghyflogi yn ei olygu i mi?**



Rydw i wedi cael fy nghyflogi gan Norman Industries fel Hyrwyddwr Anabledd Dysgu ar gyfer cyflogaeth ers mis Medi 2018. Mae gweithio yn Norman Industries wedi rhoi llawer mwy o hyder i mi. Mae wedi rhoi pwrpas i mi fedru gweithio. Rydw i wedi cael fy hyfforddi fesul cam, sy'n gweithio'n dda i mi, gan fy mod i'n tueddu i anghofio pethau weithiau.




Yn fy swydd, rydw i wir yn mwynhau mynd allan i ddigwyddiadau ac rydw i'n hoffi cyfleu'r neges i bobl ei bod yn bosibl cael eich cyflogi gydag anableddau ac anableddau dysgu. Ym mis Mehefin fe wnaethom ni gynnal diwrnod agored yn Norman Industries i hyrwyddo cyflogaeth ac roedd dros 100 o bobl yn bresennol.




Mae'r gefnogaeth rydw i'n ei derbyn yn rhagorol. Mae torri tasgau'n rhannau llai i mi weithio arnynt yn ei gwneud yn llawer haws ac mae'n rhoi mwy o hyder i mi wneud fy ngwaith. Mae fy lle gwaith wedi rhoi Mynediad i Waith i mi. Mae hyn wedi darparu offer gwahanol i mi megis desg, bysellfwrdd wedi'i addasu a llygoden arbennig ac felly rydw i'n gallu gwneud fy swydd orau y gallaf.

O ganlyniad i'r gwaith rydw i wedi bod yn ei wneud eleni, daeth Cyngor Sir Penfro i fod yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i fod yn Arweinydd Hyderus Anabledd ac mae wedi ennill gwobr "Cyflogwr Ysbrydoledig" yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer 2019.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, rydw i'n mynd i barhau i gefnogi cyflogwyr a cheisio cael mwy ohonynt i fod yn hyderus o ran anabledd.

## Rhys Eynon – Hyrwyddwr AD - Cymuned



### Fy ngwaith ar hyn o bryd:Prosiect y Newid Mwyaf Arwyddocaol


Pwrpas: casglu gwybodaeth/straeon gan bobl sydd wedi profi newidiadau yn eu bywyd gwaith. Gallai hyn fod oherwydd eu bod mewn gwaith cyflogedig, gwaith gwirfoddol neu hyd yn oed yn rhedeg eu busnes eu hunain.

Yr hyn rydw i'n chwilio amdanynt yw themâu sy'n tynnu sylw at y newidiadau y mae pobl yn eu profi yn eu lles drwy fod mewn gwaith.

Cyflwynir y profiadau a'r themâu a amlygir yn y straeon a adroddwyd gan yr ymgeiswyr (yn eu geiriau eu hunain), i banel o gynrychiolwyr. Bydd y panel hwn yn edrych ar y materion y soniwyd amdanynt ac yn gwneud newidiadau i wasanaethau ar sail hyn.

Sut rydw i'n mynd ati i wneud hyn:

- Rydw i'n gwahodd ymgeiswyr i gyfweliad i siarad am eu profiadau gwaith a mynegi manteision ac anfanteision eu bywyd gwaith cyn ac ar ôl newid galwedigaethau.
- Bydd yr ymgeiswyr yn ateb y cwestiynau hyn yn eu geiriau eu hunain.
- Bydd pob un o'r ymgeiswyr yn derbyn copi o'r crynodeb o'r hyn y mae'r prosiect MSc yn ymwneud ag ef a sut mae'n gweithio (mewn copi gwreiddiol a hawdd ei ddarllen).



# Cysylltwyr Cymunedol

Nod y Cysylltwyr Cymunedol gan PAVS (Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro) yw gwella lles unigolion a chymunedol.

Mae Rhys, yr Hyrwyddwr Anabledd Dysgu – Cymuned, yn gweithio ochr yn ochr â'r Cysylltwyr Cymunedol sy'n cynrychioli rhannau deheuol Sir Benfro yn Ninbych-y-pysgod, Arberth, Hwlffordd, Aberdaugleddau, Neyland a Phenfro yn gweithio gyda chymunedau a grwpiau.

Mae'r Cysylltwyr Cymunedol a Rhys wedi mynychu amryw o ddigwyddiadau gan gysylltu a rhwydweithio. Mae'r rhain yn cynnwys; Sioe Sirol Hwlffordd, digwyddiadau galw heibio yn Llyfrgell Hwlffordd, lansiad "pwrpasol" ym Mhenfro, a digwyddiadau ymgynghori fel yr ymgynghoriad diweddar ar gyfleoedd dydd. Bu hefyd nifer o Rwydweithiau Cyflym Cysylltwyr Cymunedol o amgylch Sir Benfro.




Cyfarfu'r Cysylltwyr â thiwtoriaid cwrs Sgiliau Byw yn Annibynnol Sir Benfro a gydag unigolion ifanc sydd ag anabledd dysgu. Cynhaliwyd y cyfarfod yn y coleg a chafodd ei drefnu trwy'r prosiect Cysylltwr ar gyfer Plant a Theuluoedd.





Gan gysylltu â thîm gwirfoddoli PAVS, a helpu yn y Ffair Gwirfoddolwyr yn Hwlffordd fis Mehefin diwethaf, fe wnaeth y Cysylltwyr Cymunedol hybu cyfleoedd gwirfoddoli yn Sir Benfro. Mae Rhys yn wirfoddolwr gyda Celfyddydau SPAN a'r Groes Goch.

Rhoddodd Rhys gyflwyniad yng Nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mai, a thynnodd sylw at ba mor bwysig ydoedd i unigolion gymryd sylw o'r hyn sy'n digwydd o'u cwmpas a chymryd rhan mewn amryw o weithgareddau a chlybiau.

Mae Cysylltwyr yn gweithio gyda sefydliadau fel Tir Coed, Ailgysylltu â Natur, sy'n rhoi cyfleoedd i bobl gael mynediad i fannau agored, y cyfeirir atynt fel arfer fel rhagnodi cymdeithasol gwyrdd/glas.



Mae hefyd wedi ymweld â sefydliadau megis Cael Lifft i'r Bachgen, sylwi ar y gwasanaeth y gallant ei gynnig i'r gymuned.

Mae hefyd wedi bod yn hybu'r Siarter AD gyda sefydliadau'r 3ydd sector, ac fe'i cyflwynodd i Fwrdd Ymddiriedolwyr a staff yn PAVS.

## Cyfathrebu

## Gwefan Mynediad i Sir Benfro

Gwefan yw Accesspembrokeshire.co.uk sydd wedi cael ei dylunio a'i hysgrifennu gan bobl ag anableddau dysgu, awtistiaeth ac anaf caffaeledig i'r ymennydd.

Wedi'i lansio ym mis Mai 2019, mae'r wefan yn darparu amrywiaeth o wybodaeth i bobl ag anabledd ynghylch gwasanaethau, llefydd i fynd, newyddion a digwyddiadau a gweithgareddau sy'n digwydd yn Sir Benfro.

Mae aelodau'r tîm i gyd yn cael eu cyflogi gan Gyngor Sir Penfro.



Rhydd y wefan wybodaeth yn Gymraeg a Saesneg mewn testun syml a hawdd ei ddarllen.

Mae'r wefan yn cael ei diweddaru'n barhaus gyda gwybodaeth newydd am wasanaethau a gweithgareddau sy'n addas ar gyfer pobl ag anableddau.

## Grŵp Darllen Hawdd

Mae Cyngor Sir Penfro a Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi ymrwymo i wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch gan ddefnyddio'r dull Cyfathrebu Cyfan.

Fel rhan o'r gwaith hwn, ysgrifennwyd nifer o ddogfennau allweddol mewn fformat hawdd ei ddarllen.

Mae grŵp Darllen Hawdd wedi cael ei greu i helpu gyda'r gwaith hwn. Mae'r grŵp hwn wedi gweithio gyda Chyngor Sir Penfro, mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Hywel Dda, ac wedi datblygu amserlen bws sy'n haws ei darllen.

Mae'r amserlen newydd yn cynnwys cloc 12 awr, wyneb cloc, llun o'r arhosfa bysiau a rhesi wedi'u diffinio'n glir i'w gwneud yn haws i ddefnyddiwr nodi'r holl amseroedd y mae'r bws yn stopio wrth ei arhosfa ef.



Mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ynglŷn â'r amserlenni newydd sydd i ddod i ben ar y 30$^{ain}$ Ebrill 2020.

# Llais, Dewis ac Eiriolaeth

## Y Tîm Delfrydol



Grŵp o bobl ag anableddau dysgu yw'r Tîm Delfrydol, sy'n gweithio gyda'r Grŵp Rhaglen Anableddau Dysgu (LDPG). Mae'r LDPG yn grŵp strategol aml-asiantaethol o uwch reolwyr iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Tîm Delfrydol yn sicrhau bod y gweithwyr proffesiynol yn rhoi gwybodaeth lawn i bobl ag anableddau dysgu ac yn eu cynnwys yn eu penderfyniadau.

Dechreuodd y Tîm Delfrydol fel grŵp o oedolion ag anableddau dysgu o Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin a gyfarfu i roi cyngor a chymorth i'r LDPG. Cawsant gymorth gan Bobl yn Gyntaf Sir Benfro a Phobl yn Gyntaf Sir Gaerfyrddin i wneud hyn. Mae'r Tîm Delfrydol bellach yn grŵp o 20 o bobl ac yn cynnwys pobl o Geredigion.

Mae'r Tîm Delfrydol yn awr yn arwain pob yn ail cyfarfod o'r LDPG. Cadeirir hwn gan James Dash. Y Tîm Delfrydol sy'n gosod yr agenda.



Enillodd y Tîm Delfrydol wobr GIG Cymru am Rymuso.

Ein nodau ar gyfer y flwyddyn i ddod;

- Cynnwys mwy o bobl yn y Tîm Delfrydol, yn enwedig y rhai ag anghenion mwy cymhleth a phobl iau
- Llunio taflen yn egluro beth yw'r Tîm Delfrydol

- Parhau i siarad â'r Bwrdd Iechyd am eu helpu i ymgysylltu â phobl ag anableddau dysgu
- Hyfforddi'r LDPG ar Edrych y tu Hwnt i'r Label

## Siarter AD




Ysgrifennwyd y Siarter AD gan bobl ag Anableddau Dysgu. Mae'n rhestr o'r pethau rydyn ni'n eu mynnu, er enghraifft, bod pobl yn cymryd amser i'n deall ni. Mae'n ymdrin â materion fel iechyd ac annibyniaeth.

Lansiwyd y Siarter yn Sioe Sirol Sir Benfro gan Julie Morgan AC, Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r Siarter wedi'i lofnodi gan dros 100 o grwpiau/sefydliadau.



Ein Nodau ar gyfer Eleni:

- Llunio Nod Ansawdd ar gyfer y Siarter, a sicrhau bod y siarter yn cyrraedd mwy o bobl.
- Ffurfio timau Archwilio (e.e. siopwr dirgel) i wirio bod sefydliadau yn cadw at y Siarter, a hefyd adrodd yn ôl i'r sefydliadau hynny a chynnig hyfforddiant.
- Cynllunio logo

## Eiriolaeth

Cynhaliwyd adolygiad eiriolaeth rhanbarthol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Er mwyn rhoi cynnig ar yr ymagwedd newydd at eiriolaeth annibynnol sy'n ofynnol gan y Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Lles (Cymru), mae Cyngor Ceredigion wedi rhoi contract i'r Hyb Gwydnwch, sy'n cynnwys grŵp o ddarparwyr eiriolaeth o rwydwaith Gorllewin Cymru, gan gynnwys Pobl yn Gyntaf Sir Benfro. Mae eiriolaeth o dan y contract hwn ar gael i bobl ag anabledd dysgu os ydynt yn bodloni'r meini prawf.

Bydd y contract hwn yn profi'r ffordd y cyflwynir eiriolaeth ar draws nifer o wahanol ddarparwyr. Erbyn hyn, mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal i edrych ar y modd y gellir mabwysiadu'r ymagwedd hon ar draws pob sir.

### Pobl yn Gyntaf Sir Benfro



Y flwyddyn ddiwethaf yma, mae bron bopeth rydyn ni wedi'i wneud wedi bod yn gysylltiedig â'r strategaeth Anabledd Dysgu.

Dyma rai uchafbwyntiau:

- Mae ein prosiect Symud Ymlaen yn edrych ar y sgiliau emosiynol sydd eu hangen arnoch i fyw'n fwy annibynnol, ac mae'n canolbwyntio'n gryf ar "awyr agored" a "byw'n iach".




- Rydym yn un o aelodau sylfaenol Planed Darllen Hawdd sydd â chenhadaeth i wneud gwybodaeth yn hygyrch - ar draws y blaned (ac yn sicr Sir Benfro!).

- Rydym yn canolbwyntio fwy a mwy ar baratoi pobl ar gyfer gwaith. Rydym yn cyflogi 4 aelod ar hyn o bryd, ac rydym wedi cefnogi 2 Hyrwyddwr AD.

- Yr ydym yn treialu hyfforddiant a ddarperir gan bobl ag anableddau dysgu. Mae hwn yn canolbwyntio ar waith – ar gyfer pobl sydd eisiau swydd a hefyd ar gyfer cyflogwyr.

- Rydym yn parhau i gynnig eiriolaeth arbenigol 1:1 i bobl ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod hyn yn parhau yn ein sir ni a thu hwnt.



- Gwelodd ein prosiect ASC Us hyfforddiant grymus yn cael ei ddatblygu a'i gyflwyno gan bobl awtistig.

- Mae ein haelodau'n gofyn i ni am fwy o ddigwyddiadau cymdeithasol, ac rydym wedi bod i ddangosiadau ffilm, cinio gyda'n gilydd a llawer mwy.

- Mae ein haelodau yn teimlo'n angerddol ynghylch cludiant, ac maent yn brysur yn ei wella, o ddatblygu Ap syml i'r amserlenni bysiau sy'n haws eu darllen.

- Mae ein prosiect Symud Ymlaen yn darparu hyfforddiant teithio.

- Rydym yn gweithio lawer ar lefel y  rhanbarth, gyda'r Siarter AD, y Tîm Delfrydol a hyrwyddwyr Archwiliad Iechyd. Sonnir am y rhain i gyd mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn, ac yn yr un modd mae'r cyfan yn helpu i wireddu Strategaeth AD Sir Benfro.



# Deilliant Allweddol 2

## Gwella ansawdd bywyd drwy well dewis o ran tai a llety, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yr un fath ag i bobl eraill yn y gymuned

### Y diweddaraf am dai

Mae adroddiad y Rhwydwaith Gwella Dysgu am Dai (LIN) bellach ar gael. Mae Cyngor Sir Penfro wedi dechrau gweithio ar adeiladu tai newydd i bobl ag anabledd yn Johnston. Cyflwynwyd gwybodaeth am y datblygiad newydd hwn i'r LDPB yng nghyfarfod Chwefror 19. Mae'r gwaith newydd ddechrau ar y safle ac felly dylai'r tai fod ar gael yn ddiweddarach eleni.



Julian Brewer yw'r Gweithiwr Datblygu – Llety â Chymorth. Yn ei swydd bydd yn gweithio gydag eraill i

- Ddylunio cynllun tai ar gyfer pobl ag anableddau dysgu
- Helpu i ddatblygu model gwasanaeth gwahanol i gefnogi gwasanaethau dydd
- Cefnogi datblygu llety i bobl ifanc mewn addysg.
- Gweithredu'r Model Dilyniant a galluogi cynlluniau cymorth.

Beth fydda i'n ei wneud?

1. Dysgu llawer!
2. Gwrando ar bobl ag anabledd dysgu
3. Helpu i chwilio am leoedd newydd i bobl fyw gyda'r cymorth sydd ei angen arnynt.
4. Gweld sut y gallwn wneud ein prosesau'n well i bawb.
5. Gweithio gyda llawer o wahanol dimau – fel ein bod i gyd yn gweithio gyda'n gilydd.

6. Byddaf yn darllen am y ffyrdd gorau o helpu pobl ag anabledd dysgu, ac yn chwilio am syniadau a fyddai o gymorth yn Sir Benfro.

Bydd y gwerthoedd hyn yn sail i'r gwaith y bydd yn ei wneud.

- Rydw i'n malio am y gwasanaethau mae pobl yn eu cael.
- Rydw i'n malio bod pobl yn cael gwrandawiad wrth ddweud eu barn.
- Mae arnaf eisiau i arian gael ei wario mewn ffyrdd sy'n gwneud bywydau pobl yn well

**Byddaf yn gwneud popeth yn fy gallu i wneud bywyd y gorau y gall fod i bobl ag anabledd dysgu ac anghenion eraill.**

# Deilliant Allweddol 3

## Rhoi mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygiad personol a phrofiad o fywyd er mwyn gwella lles ac ansawdd bywyd.

**Mae'r Adran hon yn ymdrin â**

- Cymorth gofal cymdeithasol
- Gofal iechyd cyffredinol a thriniaeth
- Trosglwyddo a chymorth i deuluoedd
- Cymorth i ofalwyr

## Y diweddaraf gan Gofal Cymdeithasol

Mae Cyngor Sir Penfro yn darparu cymorth i bobl ag Anabledd Dysgu drwy ei dîm anabledd dysgu cymunedol.

Mae ei gynllun gofal hawdd ei ddarllen wrthi'n cael ei adolygu, yn dilyn newidiadau i'n system fewnol o gofnodi a monitro'r gwaith yr ydym yn ei wneud. Bydd wedyn ar gael i'w ddefnyddio gyda phobl sydd ag anableddau dysgu.

Mae'r cynlluniau gofal a chymorth wedi cael eu diweddaru a'u newid er mwyn sicrhau ein bod yn cynnwys newidiadau y mae'n rhaid eu gwneud i gydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu rhag Colli Rhyddid. Daw hyn yn gyfraith ar ddiwedd y flwyddyn. Mae wedi gohirio datblygiad y ddogfen hawdd ei darllen.

Mae trosglwyddo yn digwydd pan fydd pobl ifanc ag anableddau dysgu yn symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Mae taflenni gwybodaeth a thaflenni trosglwyddo wedi'u datblygu a dylent gael eu cyhoeddi cyn bo hir yn Gymraeg, Saesneg a Hawdd eu Darllen. Mae hyn yn cynnwys esboniad o'r tîm trosglwyddo.

Caiff y 'tîm' trosglwyddo ei adolygu mewn ymgynghoriad â'r gwasanaethau plant er mwyn ystyried sut y gellir datblygu a chryfhau'r tîm drwy gysylltu'n agosach â staff cymorth mewn timau plant mewn timau/meysydd eraill a gwasanaethau ieuenctid.

Mae rhaglen drawsnewid Bwrdd Iechyd Hywel Dda hefyd yn edrych ar wasanaethau'r CTLD ac rydym wedi ein cysylltu ag iechyd ar gyfer y rhaglen drawsnewid ar draws y 3 Sir.

## Y diweddaraf gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda

Mae BIHDd wedi penodi 3 nyrs gyswllt iechyd rhan-amser ac wedi nodi hyrwyddwyr AD mewn ysbytai acíwt, fydd yn derbyn hyfforddiant yn y dyfodol agos. Mae hyrwyddwyr AD yn yr ysbyty yn staff sydd â diddordeb arbennig mewn anableddau dysgu, fydd yn cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau bod anghenion pobl ag AD yn cael eu hystyried wrth iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty.

fydd yn cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau bod anghenion pobl ag AD yn cael eu hystyried wrth iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty.

Un o ganlyniadau adroddiad LeDeR (golwg ar farwolaethau pobl ag AD yn Lloegr) yw y bydd llythyrau apwyntiad iechyd yn cael eu gwneud yn hawdd eu darllen. Mae'r gwasanaeth sgrinio serfigol wedi datblygu llythyr a fydd yn cael ei anfon at bob merch pan fydd yn amser ei phrawf taeniad.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu tri gweithgor a grŵp llywodraethu cyffredinol i ddod â'n cynlluniau'n fyw a chreu cyfleoedd gwaith i bobl ag anableddau dysgu.

Mae'r is-grwpiau'n canolbwyntio ar:-

1. Y broses recriwtio
2. Hyfforddiant
3. Cymorth cyflogaeth

Mae'r Tîm Delfrydol yn hybu hysbysebion a disgrifiadau swydd hawdd eu darllen, cyfweliadau hygyrch a hyfforddiant cynefino ac yn cymryd rhan lawn yn y broses hon.

Mae gwaith yn parhau gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu pecyn hyfforddi ar gyfer meddygon teulu a staff meddygfeydd ar yr archwiliad iechyd blynyddol a'r cynlluniau gweithredu iechyd. Fel rhan o'r gwaith hwn ceir blwch adnoddau ar gyfer meddygfeydd meddygon teulu i'w helpu i gyfathrebu'n well a darparu gwasanaeth gwell.

Rydym wedi recriwtio 4 o bobl ag anabledd dysgu fel Hyrwyddwyr Archwiliadau Iechyd drwy'r Gronfa Gofal Integredig. Bydd yr Hyrwyddwyr hyn yn hyrwyddo'r archwiliad iechyd blynyddol gyda meddygon teulu ac yn datblygu ffilm ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

## Courtney Poupard, Hyrwyddwr Archwiliad Iechyd Sir Benfro



Gwaith yr Hyrwyddwr Archwiliad Iechyd yw hyrwyddo iechyd gwell i bobl ag anableddau dysgu.

Bydd Courtney yn siarad â meddygon teulu a nyrsys ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyfathrebu da a defnyddio geiriau sy'n hawdd eu deall.

Bydd Courtney yn hyrwyddo archwiliadau iechyd blynyddol fel bod mwy o bobl ag anableddau dysgu yn gwybod amdanynt ac yn eu cael.

Mae Courtney yn mynd i wneud fideo sy'n hyrwyddo Archwiliadau Iechyd Blynyddol, fydd yn cael ei ddangos i feddygon teulu.

Diben yr archwiliad iechyd blynyddol yw archwilio'r corff cyfan i wneud yn siŵr bod pobl yn iach ac i edrych am afiechydon cudd fel problemau'r galon neu'r arennau. Gallai hyn atal pobl rhag cael cyflwr meddygol difrifol, gan fod llawer o afiechydon yn hawdd i'w hatal os cânt eu darganfod yn ddigon cynnar. Iechyd cyffredinol (fel taldra, pwysau, cwsg a chymeriant bwyd etc) a chaiff meddyginiaethau eu gwirio hefyd.

Os ydych chi'n mynd i gael archwiliad iechyd, gallai fod yn help i:

- Ddod â rhywun gyda chi
- Gofyn i'r meddyg ddefnyddio geiriau syml ac egluro pethau
- Ysgrifennu unrhyw beth y mae arnoch chi eisiau siarad amdano cyn i chi fynd
- Gofyn am slot dwbl ac apwyntiad yn y bore

# Deilliant Allweddol 4

## Rhoi pob cyfle iddynt fod yn annibynnol, ymarfer a mwynhau eu hawliau, a chwrdd â'u dyletswyddau unigol

Mae ein cyflawniadau dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys:-

- Daeth Cyngor Sir Penfro i fod y cyngor cyntaf yng Nghymru i ddod yn Arweinydd Hyderus Anabledd ym mis Medi 2019.
- Etholwyd Cyngor Sir Penfro yn "Gyflogwr Ysbrydoledig" am ei waith gyda phobl ag anableddau.
- Mae Norman Industries wedi cynyddu nifer y swyddi cyflogedig â chymorth y mae'n eu darparu.
- Mae Café Man Cwrdd yn parhau i gyflogi pobl ag anableddau.
- Agorwyd siop fferm newydd yn Scolton Manor i ehangu cyfleoedd cyflogaeth.
- Gweithiodd Profiad ar gyfer Diwydiannau gyda 55 o bobl ag anghenion dysgu ychwanegol, gan helpu 27 o bobl i gael gwaith.
- Mae Workways+ yn darparu cymorth wedi'i dargedu i bobl ag anableddau.
- Mae ymgynghoriad wedi ei gwblhau ar Gyfleoedd Dydd ac mae model newydd o ddarparu gwasanaeth yn cael ei dreialu.

## Beth yw Hyderus gydag Anabledd?

hyderus o ran anabledd ARWEINYDD

Mae bod yn Arweinydd Hyderus Anabledd yn golygu y gallwn ddangos ein bod yn darparu cymorth da yn y gweithle, ein bod yn gosod yr esiampl iawn ac yn rhannu arfer gorau.

I Gyngor Sir Penfro, mae hyn yn golygu:

- ✓ Darparu'r cymorth cywir i bobl ag anableddau.
- ✓ Arwain unigolion yn y gweithle.

- ✓ Darparu amgylchedd sy'n gynhwysol ac yn hygyrch i staff, cleientiaid a chwsmeriaid.
- ✓ Sicrhau bod pobl ag anabledd yn cael yr un cyfleoedd â phawb arall.

## Gwobr "Cyflogwr Ysbrydoledig" yr Adran Gwaith a Phensiynau




Cyflwynwyd y wobr ddydd Mercher (y 5$^{ed}$ o Chwefror) gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) mewn seremoni yng Nghaerdydd ar gyfer cyflogwyr Cymru.

Mae'r wobr yn cydnabod cyflawniad y Cyngor nid yn unig o ran bod yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i ennill statws Arweinydd Hyderus o ran Anabledd ond hefyd y gwaith y mae wedi ei wneud drwy Norman Industries a Workways+ i gefnogi pobl ag anabledd a chyflyrau iechyd hirdymor i gael gwaith cyflogedig.

Dechreuodd y daith i Arweinydd Hyderus Anabledd pan roddodd Rachel - sydd â pharlys yr ymennydd - gyflwyniad mewn cynhadledd DWP ym mis Rhagfyr 2018 am y gwaith y mae hi wedi bod yn ei wneud i hybu cyflogi i pobl ag anableddau dysgu.

Mae Cyngor Sir Penfro yn bendant yn arwain y ffordd o ran cyflogi pobl ag anabledd gyda thros 60 o bobl yn gweithio yn Norman Industries a Workways+ yn unig.

Rydym wedi gallu dangos y budd a geir o gyflogi pobl ag anabledd ac mae diddordeb yn awr ar draws y Cyngor i agor cyfleoedd cyflogaeth.

Gellir gweld y datganiad llawn i'r wasg yn:

https://www.sir-benfro.gov.uk/ystafell-newyddion/y-cyngor-sir-yn-ennill-dyfarniad-cyflogwr-ysbrydoledig

## Norman Industries

Mae'r Norman Industries yn cyflogi tua 65 o bobl ag ystod eang o anableddau corfforol a deallusol.

Mae Norman Gwneud dodrefn Industries yn rhoi cyfleoedd gwaith cyflogedig mewn:

- Gwaith coed
- Adfer ac atgyweirio
- Celf a Chrefft
- Cynnal a chadw tir
- Arlwyo
- Manwerthu
- Gweinyddu

Mae Norman Industries yn aelod o Gymdeithas Brydeinig o Gyflogwyr a Gynorthwyir ("BASE") ac un o'i nodau pennaf yw darparu cyflogaeth â chymorth i bobl ag anabledd neu gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio.

Defnyddir Mynediad i Waith i ddarparu cymorth ac mae'n galluogi Norman Industries i gynnig addasiadau i bobl yn y gweithle a chymorth yn y gwaith. Gall cymorth yn y gwaith gynnwys pethau fel dehonglydd yr Iaith Arwyddion Brydeinig, hyfforddwr swydd i helpu rhywun i ddysgu'r swydd, ysgrifennydd i wneud nodiadau, cynorthwyydd swydd i wneud rhan o'r swydd neu weithiwr cymorth.

## Newydd ar gyfer 2020

- Partneriaeth â Paul Sartori i ehangu prosiect adfer
- Partneriaeth â Maenor Scolton i ehangu cyfleoedd gwaith
- Prosiect Prosesu Coed



# Caffi Man Cwrdd

Mae'r Caffi Man Cwrdd yng Nghanolfan Hamdden Aberdaugleddau wedi datblygu'n lleoliad poblogaidd ar gyfer y gymuned o'i amgylch ac mae wedi gwella profiad defnyddwyr y Ganolfan.

Gyda chymorth gan Norman Industries, mae'n darparu 46 awr o waith â thâl i 6 gweithiwr â chymorth bob wythnos. Mae pump o gyfranogwyr profiad gwaith eraill yn rhan o'r tîm. Mae gan bawb gynllun hyfforddi pwrpasol a thargedau datblygu sgiliau personol sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.



*"Mae gweithio yma wedi fy helpu i ddod allan o'm cragen ac mae gen i fwy o hyder ac rydw i'n falch iawn bod gen i swydd bellach a'm harian fy hun"* **Jade Clayton.**

Mae'r caffi wedi cael cymorth gan y Gronfa Gofal Integredig am y 2 flynedd ddiwethaf. Yn y flwyddyn nesaf bydd yn dod yn hunangynhaliol heb y cymorth hwn.

# Maenor Scolton – Siop Gwneud, Tyfu a Bwyta

Scolton Manor Maenordy Scolton

Make, Grow & Eat! Gwneud, Tyfu & Bwyta!

Mae'r siop yn canolbwyntio ar roi cyfle i bobl anabl ddysgu sgiliau manwerthu a gwasanaethu cwsmeriaid mewn amgylchedd â chymorth.

Mae'r siop yn gwerthu eitemau a wnaed yn Norman Industries a detholiad o eitemau bwyd arbenigol a gynhyrchwyd yn Sir Benfro, yn ogystal â Mêl Maenor Scolton a chynnyrch ffres a dyfwyd mewn gardd o fewn muriau.

Mae'r siop ar agor saith niwrnod yr wythnos ac ar hyn o bryd mae'n darparu 52 awr o waith cyflogedig i 6 o bobl ar gontractau cyflogaeth â chymorth ac mae'n darparu tri lle profiad gwaith pellach.

"Mae fy rôl yn y siop yn cynnwys gwasanaethu cwsmeriaid a gwirio'r stoc, "Mae fy rôl yn y siop yn cynnwys gwasanaethu cwsmeriaid a gwirio'r stoc, sy'n sgiliau newydd i mi. Un o fanteision gweithio yma yw'r sgwrs rhwng y staff a'r cwsmeriaid" Jamie Bevan.











Mae E4I yn chwilio am gyfleoedd yn seiliedig ar alluoedd pobl ac yn canolbwyntio'i gefnogaeth ar anghenion unigol.

Daw atgyfeiriadau drwy gwmnïau gofal, canolfannau gwaith a Gweithwyr Cymdeithasol ac adnoddau eraill os oes ar berson angen cymorth.

Gwneir apwyntiad i gyfarfod pawb er mwyn trafod beth yr hoffen nhw ei wneud. Yna rydym yn edrych ar gyfleoedd hyfforddi, gwirfoddoli a chyfleoedd gwaith.

Cyfeiriwn at sefydliad arall sy'n cynnig cyflogaeth i unigolion mewn amrywiaeth o feysydd yn seiliedig ar eu sgiliau.

Ers Mehefin 2018, mae E4I wedi cefnogi 55 o bobl – mae 14 o'r unigolion hyn wedi symud i gyflogaeth â chymorth ac 13 i gyflogaeth 23.64%.

Mae Gweithffyrdd+ (25+) yn cefnogi pobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth i ganfod cyflogaeth, profiad gwaith neu wirfoddoli, ac ariannu hyfforddiant i symud tuag at gyflogaeth.

Mae pawb yn cael cymorth mentor 1-1, wedi'i deilwra i'r unigolyn. Byddant yn siarad â chyflogwyr i ganfod a chreu swyddi priodol. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau cymorth eraill i sicrhau bod yr unigolyn yn cael yr holl gymorth y mae arno ei angen.

Mae Gweithffyrdd+ wedi cynorthwyo 157 o bobl ag anableddau, ac o'r rhain mae 71 wedi cwblhau cymhwyster neu ardystiad perthnasol i waith, mae 81 wedi cwblhau gwirfoddoli, mae 10 wedi symud i gyflogaeth dros 16 awr ac o'r rhain mae 7 wedi cael cyflogaeth barhaus

ar ôl 6 mis (70%), mae 7 wedi cael cymorth gyda chyfle gwaith â thâl, mae 4 wedi symud i gyflogaeth o dan 16 awr.

Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, y nod i ni yw ceisio gwneud y cyfleoedd mewnol hyn yn gynaliadwy ond hefyd creu mwy o allu y tu allan i'r Awdurdod Lleol gyda chyflogwyr a sefydliadau lleol.

Dyma ble mae'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda'n swyddogion cyswllt cyflogwyr a Rachel Bailey, yr Hyrwyddwr Anabledd Dysgu ar gyfer Cyflogaeth, yn dod i'r amlwg. Maent yn darparu hyfforddiant ar gyfer cyflogwyr a phobl ag anableddau dysgu ac awtistiaeth i baratoi ar gyfer gwaith a gwybod pa gymorth sydd ar gael.

## Trawsnewid Cyfleoedd Dydd

Mae manylion llawn y prosiect hwn i'w gweld ar wefan Sir Benfro.

Mae'r prosiect yn adolygiad o'r cyfleoedd dydd a ddarperir ar hyn o bryd. Mae'n mynd i gyd-gynhyrchu model newydd o gyfleoedd dydd yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dechreuodd yn gynnar yn 2019.

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda PoblHefyd i wneud y gwaith hwn. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau, gofalwyr ac eiriolwyr yn rhan o'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Roedd 13 digwyddiad cydgynhyrchu lle roedd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn gallu dweud eu barn wrth y Cyngor. Cynhaliwyd ymgynghoriad yn gofyn i bobl gefnogi naill ai

**Dewis A:** Hyd at 4 canolbwynt a rennir ar draws yr holl grwpiau cwsmeriaid gyda chefnogaeth nifer o adenydd.

Byddai'r canolbwyntiau arfaethedig yn yr ardaloedd canlynol: Doc Penfro, Dinbych-y-pysgod, Hwlfforddd a Chrymych.

**Dewis B:** Dau ganolbwynt, un wedi'i leoli yn y Gogledd ac un yn ne Sir Benfro gyda chefnogaeth nifer o adenydd.

Dywedodd y rhan fwyaf o bobl y byddent yn cefnogi datblygu model 'canolbwynt' ac 'adenydd'. Roedd nifer o bryderon megis teithio, pryder y gallai rhai canolfannau presennol gau ac nad oedd y model yn glir iddynt.

Roedd yn well gan y rhan fwyaf o bobl Ddewis A, gan y byddai'n cynnig mwy o ddewis, cludiant a gwasanaethau ehangach.

Dros y flwyddyn nesaf, bwriadwn ddatblygu cynllun ar gyfer canolbwynt Cyfleoedd Dydd. Gwneir y gwaith hwn mewn ffordd gydgynhyrchu â defnyddwyr gwasanaethau, staff a sefydliadau cymunedol gwirfoddol.

## Cludiant

Mae Gwasanaethau Therapi Lleferydd ac Iaith yn cefnogi pobl ag anabledd dysgu i gyfathrebu a deall, gan ddileu rhwystrau i'w cynorthwyo i ddod yn fwy annibynnol.


Dywedodd pobl ag AD wrthym eu bod yn ei chael yn anodd darllen amserlenni bysiau.

Mae hyn yn eu rhwystro rhag gallu defnyddio cludiant cyhoeddus yn annibynnol.

Yn dilyn ymgyngoriadau â phobl ag AD, daethom o hyd i'r fformat cywir a chafodd amserlenni sy'n haws eu darllen eu llunio, mewn prosiect ar y cyd rhwng yr Uwch Dîm Rheoli a Chyngor Sir Penfro, ar gyfer pob un o'r 48 o lwybrau bysiau yn Sir Benfro.

Lansiwyd yr amserlenni ym mis Rhagfyr 2019 ac maent ar gael ar bapur ac i'w lawrlwytho ar wefan CSP.

Yn awr mae cyfnod o 4 mis o ymgynghori â'r holl ddefnyddwyr bws.



## Diolch i bawb sydd wedi darparu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn

Paratowyd yr adroddiad hwn gan yr Hyrwyddwyr AD, Rachel Bailey a James Dash

Mae'r adroddiad ar gael drwy gysylltu â

rachel.bailey@pembrokeshire.gov.uk

james.dash@pembrokeshire.gov.uk

rhys.eynon@pembrokeshire.gov.uk

Mae hefyd ar gael ar accesspembrokeshire.gov.uk ar dudalen Bwrdd Partneriaeth Anabledd Dysgu.






Bouncing Back
Celebrating how resilient we are





